# Polisi Mwy Abl a Thalentog

## Cyflwyniad

Yn Ysgol Pencae ein nod yw darparu cwricwlwm sy'n briodol i anghenion a galluoedd ein holl ddysgwyr. Rydym yn cydnabod bod dysgwr yn unigryw, gan arddangos ystod o ddeallusrwydd a gallu. Rydym yn cynllunio ein haddysgu a dysgu fel y gall pob dysgwr ddatblygu yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn ysbrydol.

Rydym yn parchu hawl pob dysgwr yn ein hysgol, boed beth yw eu gallu, i fanteisio ar nifer o feysydd dysgu, ac i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r agweddau sy'n angenrheidiol ar gyfer eu paratoi i fod yn oedolion cyfrifol ac i lwyddo mewn bywyd. Mae nodau ein hysgol yn cynnwys gwerthfawrogi llwyddiant pob un o'n dysgwyr (Ymdrech a Lwydda) ac yn cyfeirio at ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu a dysgu a fydd yn cynnig cyfleoedd cyfartal i bawb. Maent hefyd yn nodi'r ymrwymiad sydd gan ein hysgol i roi pob cyfle i'n dysgwyr gyrraedd y safonau uchaf. Yn Ysgol Pencae, rydym yn credu'n gryf fod y ddarpariaeth ar gyfer bodloni anghenion disgyblion Mwy Abl a Dawnus (MAD) o fantais i bob dysgwr.

## Diffiniad

Mae'r term 'Mwy Abl a Dawnus' yn gyfansawdd o ddisgyblion sy'n abl o fewn y cwricwlwm ac yn dalentog mewn meysydd arbenigol.

Mae'r term **'mwy abl'** yn cwmpasu disgyblion sy'n fwy galluog yn academaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r term **'dawnus'** yn cwmpasu'r rhai sy'n dangos talent arbennig mewn un maes neu feysydd mwy penodol fel sgiliau chwaraeon, cerddor medrus yn ogystal â sgiliau arwain a rhyngbersonol.

Mae adnabod dysgwyr mwy abl a dawnus yn gysylltiedig â chyd-destun yr ysgol ac ym mhob ysgol fydd grŵp o ddysgwyr sydd angen mwy o ehangder a dyfnder yn eu gweithgareddau dysgu.

Ym Mhencae, y dysgwyr 'Mwy Abl a Dawnus' yw'r rhai a nodir fel rhai uwchben craidd y dosbarth yn y pynciau craidd neu mewn meysydd creadigol a cherddorol sef 20% o'r dosbarth neu 6 dysgwr ym mhob dosbarth o 30 yw y rhain (ond fydd pob grŵp dysgu yn wahanol). Gall y rhain fod yn dda mewn un neu fwy o feysydd. Y dysgwyr 'Hynod Abl a Dawnus' (HAD) yw'r dysgwyr hynny sydd yn cyflawni yn eithriadol y tu hwnt i gyflawniadau y disgyblon eraill. Nid yw'r disgyblion yma o reidrwydd yn bresennol ym mhob dosbarth. Gall y rhain gael eu disgrifio fel y 2% uchaf ond nid o reidrwydd yn bresennol yn yr ysgol ar un adeg penodol.

## Amcanion

Drwy'r polisi rydym yn:

- Sicrhau ein bod yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion ein dysgwyr 'Mwy Abl a Dawnus'.
- Galluogi y dysgwyr 'Mwy Abl a Dawnus' i ddatblygu yn academaidd, yn greadigol, yn gymdeithasol ac yn ysbrydol.
- Cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr i arwain eu dysgu eu hunain.
- Sicrhau ein bod yn herio ac ymestyn disgyblion drwy'r gwaith yr ydym yn eu gosod.
- Annog dysgwyr i feddwl a gweithio'n annibynnol.
- Defnyddio asesiad priodol o alluoedd ac anghenion ein dysgwyr.
- Cysylltu ag asiantaethau eraill a all fod o gymorth i ddatblygiad y dysgwyr.

## Adnabod

Mae gan yr ysgol feini prawf penodol er mwyn adnabod disgyblion sydd yn MAD a HAD. Defnyddir rhain er mwyn penderfynu ar gofrestr MAD yr ysgol.

| MAD (20%) | HAD (2%) |
|---|---|
| Asesiadau personol 115+ | Asesiadau personol 125+ |
| Asesiadau mewnol uwch na mwyafrif y dosbarth | Asesiadau mewnol yn eithriadol uwch na gweddill y dosbarth |
| Perfformio ar lefel uchaf o fewn y dosbarth yn gyson | Perfformio a lefel gynyddol uwch na disgwyliadau'r dosbarth |
| Gallu cyfathrebu syniadau ar lefelau dyfnach na gweddill y dosbarth | Enwebiadau gan yr athrawon |

| | |
|---|---|
| Gallu myfyrio ar eu cynnydd a'u ffyrdd o wella | Gallu cyfathrebu syniadau ar lefel ddwfn gan bwyso a mesur gwybodaeth |
| Cysylltiadau â'r rheini – holiaduron talentau disgyblion | Gallu myfyrio ar eu cynnydd, ymateb i adborth ac adnabod a gweithredu ar ffyrdd o wella |
| Arsylwadau a myfyrdodau staff | Annibyniaeth yn gyson wrth weithio a chanfod ffyrdd o herio eu cynnydd ymhellach |
| Hunan/ Adnabod Cymheiriaid | Hunan/ Adnabod Cymheiriaid |

Parchwn hawl yr holl ddysgwyr yn ein hysgol, beth bynnag fo'u hoedran, gallu, rhyw, ethnigrwydd, crefydd, cyrhaeddiad, rhwystrau dysgu i gael mynediad i nifer o feysydd dysgu ac i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r agweddau sy'n anghenrheidiol ar gyfer hunan-gyflawniad a'u datblygiad yn y pen draw yn oedolion gweithredol a chyfrifol. (*Gweler Polisi Cydraddoldeb Ysgol Pencae*)

Mae enwau'r dysgwyr 'Mwy Abl a Dawnus' yn cael eu cofnodi ar ein cofrestr 'Mwy Abl a Dawnus' fel y gellir tracio cynnydd yn benodol. Gall dysgwyr gael eu cynnwys ar y rhestr ar unrhyw adeg, gan y gall doniau ddod yn amlwg wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Ar ôl eu nodi, bydd dysgwyr yn aros ar y rhestr oni bai eu bod yn peidio â bodloni'r meini prawf ar gyfer enwebiad. Ni fyddwn yn dileu yr enwau yn llwyr ond yn hytrach byddwn yn cadw'r enwau ar restr gysgod. Caiff y rhestr ei ddiweddaru a'i hadolygu gan staff ddwywaith y flwyddyn.

Danfonir holiadur sgiliau i'r rhieni er mwyn casglu gwybodaeth am amrywiol sgiliau a doniau'r dysgwyr. Defnyddir y wybodaeth yma ynghyd â barn broffesiynol yr athrawon i greu rhestr o ddisgyblion dawnus.

Mae'r ysgol yn tracio'r disgyblion sydd ar y gofrestr yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd parhaus. Pe bai pryder am gynnydd, trwy sgyrsiau proffesiynol rhwng yr Uwch Dîm Arwain a'r athrawon dosbarth rydym yn pennu camau ymlaen er mwyn darparu camau dilynnol ar gyfer y disgyblion hynny.

**Darpariaeth**

Mae'r athrawon yn cynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion dysgwyr 'Mwy Abl a Dawnus'. Win uchelgais yw cynllunio pob gwers i fod yn herio ein disgyblion Ceir gwahaniaethu

effeithiol mewn gwersi a chynlluniwn o'r copa er mwyn sicrhau nad oes nenfwd i'r gwaith. Yn amlach na pheidio, gwahaniaethir ein tasgau ar amrywiol lefelau.

Mae ein gwersi mathemateg wedi eu gwahaniaethu ar lefel aur, arian ac efydd ble fo gan y disgyblion lais o ran pa lefel her maen nhw'n cwblhau yn ddibynnol ar eu dealltwriaeth. Mae hyn yn cael traw effaith ar feddylfryd o dwf ein disgyblion wrth ystyried gwaith rhif ac yn dangos metawybydiaeth ein disgyblion i ddeall eu dysgu eu hunain..

Mae dysgwyr yn ymwybodol o'u targedau unigol ac mae gweithgareddau yn cael eu cynllunio er mwyn iddyn nhw gyrraedd y targedau hyn. Mae'r targedau yn cael eu diweddaru yn gyson.

Cynllunir amryfal weithgareddau er mwyn cynnal y disgyblion MAD ac mae'r ysgol yn rhagweithiol yn chwilio am brofiadau, gweithdai a sesiynau i herio y disgyblion ymhellach.

Ddwy waith y flwyddyn, edrychir ar gynnydd y disgyblion hyn trwy gyfrwng y pecynau cynnydd. Byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cyson ac yn derbyn y lefel her er mwyn gwneud y cynnydd disgwyliedig neu'n fwy.

**Strategaethau Dosbarth**

- Helpu dysgwyr i bennu'r hyn y maent eisoes yn ei wybod, a beth/ sut y gallant ddysgu.
- Adeiladu ar yr hyn sy'n hysbys ac osgoi ailadrodd diangen.
- Datblygu sgiliau dysgu annibynnol yn enwedig ymchwil, cwestiynu a sgiliau meddwl.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol a dulliau dysgu unigol.
- Caniatáu mannau cychwyn gwahanol.
- Gosod tasgau penagored.
- Gofyn cwestiynau agored gan ddilyn canllawiau Tacsonomi Bloom.
- Annog gwaith dychmygus a chreadigol.
- Caniatáu amser i fynd i'r afael â thasgau estynedig neu ddiddordebau unigol.
- Amrywio trefniadau grwpio: gweithio mewn grwpiau o'r un gallu a grwpiau cymysg.
- Annog dysgwyr i esbonio sut maent wedi dysgu rhywbeth.
- Gwerthfawrogi a gwobrwyo ansawdd.
- Darparu cyfleoedd i brofi ystod o ymweliadau addysgol sy'n cyfoethogi y dysgu a'r addysgu.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer ein dysgwyr. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfle i blant 'Mwy Abl a Dawnus' i ymestyn eu sgiliau

mewn ystod o weithgareddau. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys amrywiaeth o glybiau chwaraeon, drama, gweithgareddau eisteddfodol, Clwb Codio, Clwb Eco, Senedd Ysgol, Clwb Hwb, Clwb Mandarin, perfformio mewn gwasanaethau yn yr ysgol ac mewn capeli ac egwysi lleol.

**Cydlynu Darpariaeth Ysgol (Rolau a Chyfrifoldebau)**

Y cydlynydd MAD yw Mr Aled Thomas a Mrs Catrin Cleverley yn cysgodi, ac mae ganddyn nhw'r cyfrifoldeb cyffredinol, ochr yn ochr â'r Uwch Dîm Rheoli ac athrawon dosbarth ar gyfer cydlynu adnabod y dysgwyr MAD; cadw cofnodion; datblygu polisi; datblygu cwricwlwm; dysgu ac addysgu; partneriaeth ysgol/cartref; darpariaeth ysgol-gyfan; tracio cynnydd; ei datblygiad proffesiynol parhaus ei hun a chysylltu gyda'r llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb MAD. Prif gyfrifoldeb yr athro dosbarth yw cynnydd plant, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl a dawnus. Gall yr athro rannu unrhyw bryderon am gynnydd plentyn, neu am y ddarpariaeth y dylid ei gynnig, gyda'r Cydlynydd MAD.

**Trosglwyddo a Phontio**

Mae pontio effeithiol rhwng dosbarthiadau yn dibynnu ar systemau cyfathrebu effeithiol. Mae staff addysgu a chefnogi yn cynnal cyfarfodydd pontio i drosglwyddo gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â lefelau cyrhaeddiad a thargedau y dysgwyr mwy abl a dawnus maent yn addysgu; gwaith sydd eisoes wedi ei wneud; gwaith y mae angen ei gynllunio ar ei gyfer; hoff ddulliau dysgu; dulliau dysgu aflwyddiannus; cryfderau a gwendidau unigolion penodol; unrhyw ddyfeisgarwch a menter maent wedi arddangos a thargedau ar gyfer datblygiad pellach. Trafodir a rhennir data y disgyblion ac edrychir ar gynnydd y disgyblion fel rhan o'r cyfarfod pontio.

Rydym yn cydweithio yn agos iawn gyda'r holl ysgolion uwchradd er mwyn rhannu gwybodaeth trosglwyddo effeithiol ar gyfer y disgyblion Mwy Abl a Dawnus.

**Monitro ac adolygu'r polisi**

Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn gan y Cydlynydd MAD, drwy drafodaethau gyda staff, dysgwyr a rhieni. Bydd y polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Cydlynydd MAD, UDRh a'r aelod enwebedig o'r corff llywodraethol sy'n gyfrifol am MAD, a bydd yn cael ei ddiweddaru mewn ymateb i unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r AALl. Bydd y rhestr ddarpariaeth yn cael ei adolygu gan athrawon dosbarth gyda'r Cydlynydd MAD. Bydd pob rhiant yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plant drwy gyfarfodydd rhieni.

**Hawliau Plant:**

| | | |
|---|---|---|
| **Erthygl 13:** **Eich hawl i gael gwybodaeth.** | **Erthygl 28: Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.** | **Erthygl 37: Eich hawl i gael eich trin yn deg.** |

| | |
|---|---|
| Adolygwyd | Rhagfyr 2024 |
| Cytunwyd gan Y Corff Llywodraethol | |
| Dyddiad adolygu'r polisi | Rhagfyr 2026 |

**COFNOD - STAFF SYDD WEDI DARLLEN Y POLISI**

| ENW | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| Siwan Dafydd | *Siwan Dafydd* | 3.12.24 |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |